

## Thema 9 Nodiadau athrawon: Pa mor gymdeithasol yw cyfryngau cymdeithasol?

Cyfnod Allweddol 2	
<p><b>Crynodeb o'r ymholiad:</b> I ddechrau, mae dysgwyr yn ystyried beth yw cyfryngau cymdeithasol ac yn mynegi barn am eu defnyddio. Mae dysgwyr yn ystyried canfyddiadau ymchwil ac yn cynnal ymchwil i archwilio faint o amser mae eu cyfoedion yn ei dreulio ar-lein. Mae dysgwyr yn ystyried eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Twitter, yn ymchwilio i'r cyfrifon mwyaf poblogaidd yng Nghymru ac yn ystyried defnydd Twitter ledled y byd ac yn rhagfynegi'r defnydd o Twitter y dyfodol. Yn olaf, maent yn archwilio'r defnydd o glipiau fideo fel offer addysgol a chreu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.</p>	<p><b>Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:</b> <b>CA2: Gwyddoniaeth:</b> Y Ddaear gynaliadwy; Sut mae pethau'n gweithio <b>CA2: TGCh:</b> Sgiliau; Ystod  <b>FfLIRh:</b> <b>Defnyddio data:</b> Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau  <b>FfCD:</b> Dinasyddiaeth; Rhyngweithio a chydweithio; Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol</p>

<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>1</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>I ddechrau, mae dysgwyr yn ystyried y cwestiwn 'Beth yw cyfryngau cymdeithasol?', gan rannu a thrafod eu syniadau. Darperir diagram PMD* rhyngweithiol ar y sgrin.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i fyfyrir ar eu barn am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Maent yn ystyried y pethau cadarnhaol (P=Plws), y pethau negyddol (M=minws) a'r pethau diddorol (D=diddorol) am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chofnodi eu syniadau ar y sgrin.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth yw cyfryngau cymdeithasol ac yn mynegi barn am eu defnyddio.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b></p> <p><a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a></p>
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>2</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon darperir pedwar pen oedolyn sy'n siarad. Mae gan bob un swigen llefaru sy'n cyfeirio at ganfyddiadau ymchwil am ddefnydd ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Gofynnir i ddysgwyr ystyried a yw'r canfyddiadau ymchwil yn gwneud synnwyr, pa dystiolaeth sydd ganddynt i gefnogi eu syniadau a beth sy'n peri syndod iddyn nhw. Maent hefyd yn cael eu hannog i ystyried methodoleg ymchwil a dibynadwyedd y data.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ymchwilio i faint o amser mae pobl yn eu dosbarth yn ei dreulio ar-lein. Mae'n ofynnol iddynt gynllunio a chynnal ymchwiliad i ddarganfod rhyw agwedd ar ddefnydd ar-lein y dosbarth. Darperir awgrymiadau i ddysgwyr i'w hystyried a fydd yn eu harwain drwy'r broses. Gofynnir iddynt ddefnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chasglu i greu infograffig i ddangos eu data.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried canfyddiadau ymchwil ac yn cynnal ymchwil i archwilio faint o amser mae eu cyfoedion yn ei dreulio ar-lein.</p>
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>3</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am Twitter trwy drafod eu syniadau mewn ymateb i gwestiynau a ddarperir ar y sgrin.</p> <p>Ar y sgrin hon, darperir tabl sy'n dangos y deuddeg cyfrif Twitter mwyaf dylanwadol yng Nghymru yn 2015 a nifer y dilynwyd ar gyfer pob cyfrif.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i archwilio pa wybodaeth a ddarperir yn y tabl a</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Twitter ac yn ymchwilio i'r cyfrifon Twitter mwyaf poblogaidd yng Nghymru.</p>

	<p>sut y gellir dangos hyn mewn ffordd wahanol.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gofyn i ddysgwyr gynnal ymchwil i ddod o hyd i'r ffigyrau cyfredol ar gyfer defnyddwyr Twitter yng Nghymru. Darperir nifer o gwestiynau i annog trafodaeth ac i arwain dysgwyr trwy'r broses ymchwil.</p>	
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>4</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Dangosir graff ar y sgrin sy'n dangos nifer y defnyddwyr Twitter gweithredol bob mis, ledled y byd o 2010 i 2015. Gofynnir i ddysgwyr archwilio'r wybodaeth a ddarperir yn y graff trwy drafod pedwar datganiad amdano.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried rhagfynegiadau a wneir am y defnydd o Twitter. Darperir gwybodaeth a gwahoddir dysgwyr i ystyried sut y byddai'r graff yn newid pe byddai'r rhagfynegiadau hyn yn gywir, trwy ychwanegu at y graff. Dangosir y graff cyfredol i'r dysgwyr ac fe'u hanogir i gymharu eu rhagfynegiadau gyda'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried y defnydd o Twitter ledled y byd a rhagfynegi'r defnydd yn y dyfodol.</p>
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>5</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Nod y sgrin hon yw i ddysgwyr archwilio a chreu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. I ddechrau, maent yn rhannu eu barn am ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio testun a ddarperir ar y sgrin fel deunydd ysgogi. Mae dysgwyr yn ymchwilio i ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol eraill ac yn adrodd am eu canfyddiadau.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ddarllen gwybodaeth ar y sgrin ac i wyllo'r clip fideo a ddarperir. Mae'r clip yn dangos arbrawf wyddoniaeth lle caiff llaeth ei dywallt i mewn i ddysgl ac ychwanegir lliw bwyd gwahanol ato. Mae ffon gotwm yn cael ei throchi mewn sebon hylif a'i rhoi yn y llaeth. Gofynnir i ddysgwyr ail-greu'r arbrawf a gwneud fideo ohono.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn archwilio'r defnydd o glipiau fideo fel offer addysgol ac yn creu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.</p>

	Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i greu ymgyrch cyfryngau yn yr ysgol. Darperir cwestiynau cymorth i arwain dysgwyr drwy'r broses.	
--	--	--

### Cyfnod Allweddol 3

#### Crynodeb o'r ymholiad:

I ddechrau, mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol trwy ystyried beth yw cyfryngau cymdeithasol a'u barn am eu defnyddio.

Maent yn dadansoddi data ac yn casglu eu data eu hunain i ymchwilio i ddefnydd eu cyfoedion o gyfryngau cymdeithasol. Mae dysgwyr yn archwilio materion diogelwch sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol a'u syniadau am Twitter - y gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol ar-lein.

Maent yn ystyried data o'r gorffennol am y defnydd o Twitter ac yn ystyried a yw'r rhagfynegiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y defnydd presennol. Yn olaf, mae dysgwyr yn cynnal ymchwil ac yn defnyddio'r canfyddiadau i gymharu'r defnydd a wna pobl ifanc yn eu harddegau yn y DU ac UDA o aps rhwydweithio cymdeithasol.

#### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm a'r FfLIRh:

##### CA3: Gwyddoniaeth:

Y Ddaear gynaliadwy; Sut mae pethau'n gweithio

##### CA3: TGCh:

Sgiliau; Ystod

##### FfLIRh:

##### Defnyddio data:

Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau

**FfCD:** Dinasyddiaeth; Rhyngweithio a chydweithio; Cynhyrchu; Data a meddwl cyfrifiadurol

<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>1</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>I ddechrau, mae dysgwyr yn ystyried y cwestiwn 'Beth yw cyfryngau cymdeithasol?', gan rannu a thrafod eu syniadau. Darperir diagram PMD* rhyngweithiol ar y sgrin.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i fyfyrto ar eu barn am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Maent yn ystyried y pethau cadarnhaol (P=Plws), y pethau negyddol (M=minws) a'r</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried beth yw cyfryngau cymdeithasol ac yn mynegi barn am eu defnyddio.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b></p> <p><a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a></p>
-------------------------------------	---	---

	pethau diddorol (D=diddorol) am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chofnodi eu syniadau ar y sgrin.	
<b>Sgrin</b>  <b>2</b>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> I ddechrau, mae dysgwyr yn trafod a rhannu syniadau am y cyfryngau cymdeithasol y maent hwy a'u ffrindiau'n eu defnyddio a'r rhesymau dros eu defnyddio a pham y maent yn newid i ddefnyddio rhai eraill.</p> <p>Mae'r gweithgaredd cyntaf yn gwahodd dysgwyr i edrych ar graff a ddarperir ar y sgrin ac i ystyried yr hyn y gallant ei ddarganfod o ystadegau. Mae cwestiynau cymorth yn cael eu darparu i hyrwyddo trafodaeth.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i wneud ymchwil i ddarganfod beth yw'r pum safle rhwydwaith cymdeithasol gorau a ddefnyddir yn eu grŵp blwyddyn. Fe'u hanogir i ddefnyddio Excel i arddangos canfyddiadau ac i gymharu eu data gyda'r graff yng ngweithgaredd un.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn ystyried data a chasglu eu data eu hunain i ymchwilio i ddefnydd eu cyfoedion o gyfryngau cymdeithasol.</p>
<b>Sgrin</b>  <b>3</b>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b> Nod y sgrin hon yw gweithredu fel ysgogiad i ddysgwyr archwilio materion diogelwch sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. I gychwyn, maent yn rhannu a thrafod syniadau am fwlio a throlio ar y rhyngrwyd a sut y gallai effeithio ar bobl.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i fwrw golwg ar siart bar ar y sgrin sy'n dangos profiadau plant o wahanol oeddrannau o fwlio neu drolio ar-lein. Gofynnir iddynt ddadansoddi'r data a thynnu casgliadau.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried sut y byddent yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i adrodd ar y data o'r siart bar.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn archwilio materion diogelwch sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngau cymdeithasol.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b> <a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a></p>

<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>4</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Mae'r sgrin hon yn annog dysgwyr i ystyried yr hyn y maent yn ei wybod am Twitter - y gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol ar-lein. I ddechrau, maent yn rhannu a thrafod syniadau i archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol ac yn cael eu harwain gan gwestiynau cymorth.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gofyn i ddysgwyr edrych ar dabl ar y sgrin sy'n dangos 12 prif ddefnyddwyr Twitter ledled y byd ym mis Gorffennaf 2017. Gofynnir cwestiynau iddynt am y data ac i chwilio am ddata byd-eang cyfredol, ac yna cymharu'r dda.</p> <p>Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ystyried pa mor fawr yw Twitter mewn gwirionedd. Gofynnir iddynt edrych ar y graff llinell ar y sgrin sy'n dangos 'Miliynau o gyfrifon Twitter' yn erbyn 'Nifer y bobl a ddilynir'. Anogir dysgwyr i ddadansoddi'r graff, ystyried datganiadau am y graff ac ysgrifennu eu datganiadau eu hunain yn seiliedig ar y graff.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn archwilio eu syniadau am Twitter - y gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol ar-lein.</p>
<p><b>Sgrin</b></p> <p><b>5</b></p>	<p><b>Defnyddio'r sgrin:</b></p> <p>Ar y sgrin hon mae dau graff sy'n cynnwys y cyfnod amser 2011-2013. Teitl y graff cyntaf yw 'Mae twf defnyddwyr Twitter yn lleihau'n frawychus o gyflym', tra bod yr ail yn dangos 'Nifer o ddefnyddwyr Twitter sy'n weithredol bob mis, mewn miliynau'. Darperir cwestiynau cymorth i ddysgwyr sy'n eu harwain i ystyried a chymharu'r data yn y dda graff a gofynnir iddynt benderfynu a yw'r data ym mhob un yn cefnogi neu'n gwrthddweud y llall.</p> <p>Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i ganfod y sefyllfa bresennol o ran defnyddio Twitter ac i ystyried a yw rhagfynegiadau 2011-2013 wedi eu gwireddu. Fe'u hanogir i adrodd am eu canfyddiadau ar ffurf un trydar.</p>	<p><b>Cyfle dysgu:</b></p> <p>Mae dysgwyr yn ystyried data o'r gorffennol am y defnydd o Twitter ac yn ystyried a yw'r rhagfynegiadau yn cael eu hadlewyrchu yn y defnydd presennol o Twitter.</p> <p><b>Adnoddau ychwanegol:</b></p> <p><a href="http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf">http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf</a></p>



<b>Sgrin</b>  <b>6</b>	<b>Defnyddio'r sgrin:</b> Nod y sgrin hon yw i ddysgwyr ystyried a yw defnydd pobl yn eu harddegau o gyfryngau cymdeithasol yn y DU yn adlewyrchu data UDA. I ddechrau, gofynnir i ddysgwyr rannu a thrafod eu syniadau am eu hoff ap rhwydweithio cymdeithasol.  Mae gweithgaredd yn gwahodd dysgwyr i glicio ar infograffig sy'n dangos defnydd pobl yn eu harddegau yn UDA o aps rhwydweithio cymdeithasol ac yna i ddatblygu'r data.  Mae ail weithgaredd yn gwahodd dysgwyr i amlinellu cynllun i ddatblygu astudiaeth debyg yn y DU. Darperir paramedrau iddynt eu hystyried a gofynnir iddynt gynnal yr ymchwil a gynlluniwyd ganddynt, yn yr ysgol, gan ddefnyddio Excel i arddangos eu canfyddiadau.	<b>Cyfle dysgu:</b> Mae dysgwyr yn cynnal ymchwil ac yn defnyddio'r canfyddiadau i gymharu'r defnydd a wna pobl ifanc yn eu harddegau yn y DU ac UDA o aps rhwydweithio cymdeithasol.
------------------------------	--	--

